Cyngor Sir Powys
Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad: 23 Chwefror 2021

Annwyl riant / ofalwr,

Os yw rhywun yn derbyn canlyniad prawf positif am Covid-19, byddwch yn ymwybodol bod gofyn i'w cysylltiadau hunan ynysu am 10 diwrnod. Mae'n bosibl eich bod eisoes wedi cael profiad o hyn, gan gynnwys lle roedd gofyn i ddosbarth eich plentyn hunan-ynysu oherwydd achos positif yn swigen eu dosbarth.

Fel rhan o'r dychweliad graddol i fywyd llawn yr ysgolion, mae Llywodraeth Leol wedi sicrhau bod profion rheolaidd ar gael i bob aelod o staff ysgolion. Mae profion rheolaidd yn golygu bod staff (sy'n gallu dewis peidio â chymryd rhan) yn defnyddio prawf hunan-weinyddu cyflym (o'r enw prawf llif unffordd) ddwywaith yr wythnos. Os ceir canlyniad positif i'r prawf hwn, bydd yn rhaid cael prawf adwaith cadwynol polymeras (PCR) sy'n cael ei anfon i'r labordy) i gadarnhau'r canlyniad positif.

Fodd bynnag, yn achos y cyfnod rhwng y canlyniad positif i'r prawf llif unffordd a chanlyniad y prawf PCR, mae angen i gysylltiadau'r aelod o staff hunan-ynysu. Felly sylwch y gallai fod adegau pan ddywedir wrth eich plentyn am hunan-ynysu. Gallai hyn fod am 10 diwrnod os ceir cadarnhad bod y canlyniad yn bositif, neu lai o ddyddiau os yw'r prawf PCR yn negatif (mae canlyniad negatif i'r prawf PCR yn dilyn canlyniad positif i'r prawf llif unffordd yn drech na'r canlyniad positif, a gall pob parti sy'n cael ei effeithio ddod â'u cyfnod o hunan-ynysu i ben).

Yn gywir,

Cyng. Phyl Davies
Aelod Portffolio – Addysg ac Eiddo